WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Anthony O'Sullivan
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Swyddfeydd y Cyngor
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 11 Hydref 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 507A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | JJ/IAL1 |
| **Ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@WAO.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **24** |

Annwyl Anthony

## Asesiad o Welliant

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu mewn perthynas ag a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r canlynol:

- fy marn ar a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliannau;
- fy marn ar a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella a chynigion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol sydd wedi codi ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
  - chrynodeb o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion a/neu argymhellion pellach ar gyfer gwella; a
- diweddariadau i gynllun gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac amserlen ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad o Welliant.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn darparu llythyr pellach erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliannau o dan y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor (y Cynllun), sef *Amcanion Gwella 2012-2013 (yn cynnwys Crynodeb o Gynnydd ar gyfer 2011-2012)*, a'r wyth Amcan Gwella sy'n gynwysedig, yn bodloni gofynion y Mesur a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cynllun wedi'i gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg o fewn yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ond, oherwydd materion cyfieithu, cafodd y fersiwn Cymraeg ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ryw dair wythnos ar ôl y fersiwn Saesneg. Mae'r ddau ar gael mewn fformat electronig ar wefan y Cyngor ac mae copïau caled o'r Cynllun dwyieithog ar gael ar gais. Mae Cynllun eleni'n gymharol fyr, felly ni chynhyrchwyd crynodeb ar wahân. Er hynny, cyhoeddodd y Cyngor grynodeb o Amcanion Gwella 2012-2013 yn rhifyn mis Medi o'i gylchlythyr *Newsline*, gan helpu i wneud yr Amcanion Gwella'n fwy hygyrch i'r rhai nad ydynt yn hyddysg mewn cyfrifiadura neu nad oes ganddynt fynediad i'r we.

Mae etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2012 wedi arwain at newid yng ngweinyddiaeth y Cyngor. Erbyn hyn, mae 50 o'r 73 o seddi sydd ar gael yn eiddo i'r Blaid Lafur. Yn ystod 2012-13, bydd y Cyngor newydd yn adolygu'r Amcanion Gwella presennol a'i ddulliau darparu gwasanaethau ac yn nodi meysydd penodol lle bydd gwelliannau o fudd i'r rhai â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, nid yw cyfansoddiad y Cyngor ar ei wefan wedi'i ddiweddaru ers mis Mehefin 2010, er y cafodd *Part 4: Rules of Procedures* ei diweddaru ym mis Mehefin 2011.

Mae'r Cyngor wedi gwneud uwch swyddog arweiniol yn gyfrifol am bob un o'i Amcanion Gwella. Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn cynnal asesiad manwl o bob Amcan Gwella i gadarnhau eu cyfreithlondeb ac i bennu amcanion, mesurau a chynnydd i'r dyfodol. Mae agweddau ar yr asesiadau hyn yn sail i'w Gynllun. Ac eithrio rhai newidiadau bach i'r geiriau, nid yw'r wyth Amcan Gwella ar gyfer 2012-13 wedi newid llawer ers y flwyddyn flaenorol.

Cadarnhaodd y Cyngor na chynhaliwyd ymgynghoriad cyffredinol penodol ar gyfer Amcanion Gwella eleni. Fodd bynnag, o ystyried nad oedd yr Amcanion Gwella wedi newid llawer ers y flwyddyn flaenorol, mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau a mecanweithiau ymgynghori ac ymgysylltu presennol i lywio'r gwaith o ddewis Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13. Mae hyn yn cynnwys y gwaith ymgysylltu penodol ar Amcanion Gwella y llynedd ac ymgynghoriad ar y meysydd gwasanaeth unigol. Fodd bynnag, gellid gwella cwmpas yr ymgynghoriad hwn. Mae enghraifft o hyn yn ymwneud ag Amcan Gwella 3, 'Cynnal yr ystod o Gyfleoedd Cyflogaeth ar gyfer preswylwyr', lle collodd y Cyngor y cyfle i ymgynghori ag asiantaethau a grwpiau busnes ynglŷn â'r ffordd orau o gyflawni'r amcan penodol hwn. Cydnabyddir y gallai'r etholiadau llywodraeth leol diweddar fod wedi effeithio ar ei allu i gynnal ymgynghoriad mor eang â'r blynyddoedd

blaenorol ond, yn y dyfodol, bydd hi'n bwysig i'r Cyngor neilltuo digon o amser i sicrhau y gall ymgynghori'n effeithiol â'r amrywiaeth o randdeiliaid, fel y'u diffinnir yn y Mesur (gweler C1).

Mae'r Cynllun yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor am ei gyflawni a'r hyn y bydd yn ei wneud dros y flwyddyn nesaf. Caiff yr wyth Amcan Gwella eu rhannu yn wyth adran fel a ganlyn: crynodeb o berfformiad; cynnydd yn erbyn mesurau/dangosyddion perfformiad; faint rydym wedi'i wneud; pa mor dda y gwnaethom ni; oes unrhyw un wedi elwa; pa newidiadau a wnaed gennym ar gyfer 2012-13; canlyniadau yn 2011-12; a 2012-13, camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi y dylai Amcanion Gwella fod yn gyfreithlon, yn glir ac yn gadarn, yn gyflawnadwy a gweladwy. Er bod Cynllun ac Amcanion Gwella'r Cyngor yn adlewyrchu rhai o'r agweddau hyn yn well nag eraill, mae yna rai meysydd y gellid eu gwella o hyd. Dylid gwneud y llinell welediad rhwng yr Amcanion Gwella unigol a rhai o Gynlluniau Gwella Gwasanaethau (SIPs) y Cyngor yn gliriach i sicrhau y gall y Cyngor ddangos yn gyson bod amcanion yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, dangosodd SIP Dysgu, Addysg a Chynhwysiant gysylltiad cyfyngedig â'r Amcanion Gwella, ac roedd y cysylltiadau rhwng yr Amcan Gwella perthnasol a SIP Gwasanaethau Oedolion yn gliriach. Ar hyn o bryd, nid yw SIPs yn cynnwys asesiad ariannol blynyddol ffurfiol o Amcanion Gwella perthnasol i sicrhau bod adnoddau'n cyfateb yn glir i flaenoriaethau. Fodd bynnag, mae Gwasanaethau Oedolion wedi nodi risgiau allweddol mewn perthynas â rheolaeth ariannol ac effeithiau ar gyllidebau'r dyfodol, ac maent yn bwriadu datblygu asesiad ariannol tair blynedd. Pe baent yn cael eu mabwysiadu'n gyson ledled y sefydliad, byddai asesiadau ariannol o'r fath yn helpu cynlluniau ariannol y Cyngor i sicrhau bod ei flaenoriaethau gweithredu, yn enwedig yng nghyd-destun lleihau adnoddau, yn cael eu nodi'n glir a bod adnoddau'n cael eu dyrannu (gweler C2).

Mae'r Cyngor wedi diweddaru rhai o'i ganlyniadau a'r mesurau cyfatebol fel eu bod yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Mae ei Gynllun yn cydnabod bod angen 'datblygu mesuriadau er mwyn pennu effaith gadarnhaol y gwaith hwn'. Rydym wedi nodi'n flaenorol bod angen gwella'r gwaith o sicrhau bod gan Amcanion Gwella fesurau clir a chadarn er mwyn barnu'r manteision i ddinasyddion, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r mater hwn o hyd mewn perthynas â rhai Amcanion Gwella.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn amlinellu gofynion penodol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae yna aliniad sylweddol rhwng y gofyniad i gynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen o 'Degwch' y mae'n rhaid i awdurdodau roi sylw iddi wrth bennu Amcanion Gwella o dan y Mesur.

Er y cynhaliodd y Cyngor asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer ei Amcanion Gwella 2010-11, mae ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) yn nodi mai trwy'r mecanwaith SIP y trafodir materion cydraddoldeb ar lefel gwasanaeth. Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad nad oedd pob gwasanaeth wedi cyflawni asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Er enghraifft, roedd SIP Gwasanaethau Oedolion yn cynnwys asesiad manwl, ond nid oedd asesiad o'r fath wedi'i gwblhau ar gyfer SIP Dysgu, Addysg a Chynhwysiant na SIP Cynllunio a Datblygu Economaidd. Os yw'r Cyngor am ddangos bod pob un o'i Amcanion Gwella'n berthnasol, yn gadarn ac yn gyfreithlon, dylai gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn gyson ar draws pob gwasanaeth. Roedd gwaith Uned Rheoli Perfformiad y Cyngor wedi nodi'r anghysondeb hwn hefyd, ond nid yw wedi mynd i'r afael â'r mater hyd yma (gweler C2).

Caiff y gwaith o fonitro cynnydd a chyflawni'r Amcanion Gwella ei reoli'n bennaf trwy gynlluniau gweithredu manwl sy'n cynnwys cerrig milltir a thargedau. Mae Paneli Craffu Rheoli Perfformiad yn craffu ar y cynlluniau gweithredu ddwywaith y flwyddyn.

## Yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i hwnnw, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond mae angen iddo wneud gwelliannau'n gyflymach mewn nifer o feysydd

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

### Anghyson yw'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor yn erbyn ein cynigion ar gyfer gwella ac mae nifer yn dal heb eu cyflawni. Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau atebolrwydd o ran rheoli a darparu canfyddiadau ein gwaith

Yn y gorffennol, rwyf wedi cyflwyno nifer o gynigion ar gyfer gwella ac wedi nodi rhai meysydd lle byddem yn cyflawni gwaith pellach. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod, a cheir disgrifiad manylach yn Atodiad 1.

Thema gyffredin mewn llawer o'n cynigion ar gyfer gwella yw bod angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn hunanwerthuso ac adrodd ar ei berfformiad mewn ffordd fwy cytbwys a chadarn, gan gynnwys a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella, trwy ddefnyddio mesurau a fydd yn ei alluogi i ddangos yr effaith y mae'n ei chael ar fywydau ei ddinasyddion.

Mae cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella wedi bod yn anghyson. Gwelwyd rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â rhai cynigion ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'n cynnig y dylai rheolwyr feddu ar y sgiliau i ddwyn eu staff i gyfrif. Fodd bynnag, mewn perthynas ag amryw o gynigion eraill, nid yw'r Cyngor wedi gwneud llawer o gynnydd os o gwbl, er enghraifft, nid yw'r Cyngor wedi sefydlu safonau gofynnol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ar gyfer pob maes gwasanaeth. Rydym wedi egluro natur a chwmpas ein cynigion ar gyfer gwella a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â nhw (fel y nodir yn Atodiad 1).

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gryfhau ei drefniadau atebolrwydd a chraffu er mwyn gwella ei ddull o reoli, adrodd a mynd i'r afael â gwelliannau a gynigir gan reoleiddwyr ac arolygiaethau. Ar hyn o bryd, nid yw trefniadau rheoli'r Cyngor ar gyfer mynd ati'n systematig i adrodd, monitro a dwyn swyddogion i gyfrif am weithredu'r cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiadau, yn gyson nac yn gadarn. Er bod y Cyngor wedi sicrhau bod pwyllgorau craffu'n rhan o'i fframwaith rheoli perfformiad, dylid mynd ati i gryfhau trefniadau craffu ac atebolrwydd gan y dylai craffu fod yn ffordd allweddol o sicrhau bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer adroddiadau rheoleiddwyr ac arolygiaethau'n gadarn. Er bod gan y Cyngor gynllun gweithredu sy'n ymgorffori rhai o'n cynigion ar gyfer gwella, nid yw'n cynnwys pob un ohonynt, er y dylai wneud hynny. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i aelodau a swyddogion y Cyngor, ei ddinasyddion a'i reoleiddwyr, asesu unrhyw gynnydd a wnaed. Mae'r cynllun gweithredu presennol, sy'n anghyflawn, yn cael ei fonitro gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Ni adroddwyd ar unrhyw gynlluniau gweithredu mewn perthynas ag Adroddiad Gwella Blynyddol 2011 na Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol mis Awst 2011. Dywedodd y Cyngor y bydd cynlluniau gweithredu'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol fel y gellir monitro cynnydd.

Mae angen i'r Cyngor weithredu'n cynigion yn gyflymach. Bydd hi'n bwysig i'r Cyngor allu dangos ei fod yn gweithredu cynigion ar gyfer gwella yn ei adroddiad asesu perfformiad ym mis Hydref 2012 er mwyn sicrhau y gall y Cyngor ddangos bod ganddo drefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus (gweler C3). Mae'r Cyngor yn derbyn bod angen iddo wella'r ffordd y mae'n rheoli ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'n cynigion ar gyfer gwella.

### Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gasglu, cofnodi a monitro gwybodaeth am berfformiad

Er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwneud yn well fyth, mae pob cyngor angen gwybodaeth dda a'r gallu i ddefnyddio'r wybodaeth honno'n briodol. Mae gan y Cyngor systemau da ar gyfer adrodd ar ei berfformiad ac, yn ddiweddar, rydym wedi archwilio'r systemau hyn i asesu pa mor ddibynadwy ydynt. Mae'r mesurau a ddewiswyd gennym i'w harchwilio yn gymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r holl fesurau hyn i farnu pa mor dda mae'n cyflawni ei Amcanion Gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

Ar y cyfan, gwelwyd bod gan y Cyngor systemau effeithiol ar waith i reoli gwybodaeth am berfformiad. Archwiliwyd 27 o fesurau i gyd; nid oedd unrhyw un yn amodol ac roedd angen cywiro pedwar oherwydd gwallau. Yn ystod ein harchwiliad o'r dangosydd SCA/001: 'Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd', gwelwyd bod angen i'r Cyngor gynnal dull cyson o gofnodi gwybodaeth ar gyfer y Dangosydd Perfformiad ac y dylai gadw'r holl brif ddogfennau i gefnogi'r gwerth a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn. Byddwn yn adrodd ar berfformiad gwasanaethau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.

### Ar y cyfan, mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i reoli ei weithlu, ond gellid gwella'r gwaith o gynllunio gweithlu strategol a chynllunio ar gyfer olyniaeth ac adrodd ar berfformiad Adnoddau Dynol

Yn 2011, aethom ati i adolygu trefniadau gweithlu ac Adnoddau Dynol (AD) y Cyngor. Penderfynwyd canolbwyntio ar asesu a oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i reoli ei weithlu a gwneud y defnydd gorau ohono. Daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau ar waith i reoli ei weithlu, ond y gellid gwella'r gwaith o gynllunio gweithlu strategol a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Hefyd, gellid gwella trefniadau adrodd y Cyngor ar swyddogaethau'r adran AD gan ddefnyddio Adolygiadau Datblygu Perfformiad (PDRs)[1] i gryfhau'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth.

Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod yna weledigaeth a chynlluniau clir i newid i fodelau darparu gwasanaethau newydd sy'n cydnabod y goblygiadau i'r gweithlu, a bod Penaethiaid Gwasanaeth ac AD yn ymgynghori â'i gilydd ar unrhyw gynigion ad-drefnu sydd â goblygiadau i'r gweithlu. Mae gan y Cyngor Strategaeth ar gyfer Pobl, ac mae'r egwyddorion allweddol ar gyfer rheoli pobl yn seiliedig arni, yn ogystal â Grŵp Datblygu Strategaeth AD. Mae polisïau AD allweddol ar gael i weithwyr cyflogedig ar fewnrwyd y Cyngor ac mae staff yn cael eu hysbysu am newidiadau i bolisïau trwy'r Bwletin AD neu mewn e-bost. Mae technoleg yn cael ei defnyddio'n dda i gefnogi dulliau gwaith effeithlon, darperir cymorth priodol gan yr adran Technoleg Gwybodaeth (TG) ac mae cynlluniau ar waith i gyflwyno porth AD newydd. Mae'r Cyngor yn meincnodi ei swyddogaeth AD yn rheolaidd yn erbyn awdurdodau cymharol, sy'n cwmpasu ystod eang o fesurau perfformiad y gweithlu ac AD. Mae'r Cyngor yn cyflawni Statws Sengl[2] yn llwyddiannus ac mae ganddo brosesau parhaus ar waith i sicrhau bod y statws yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae yna nifer o weithgorau a chyd-fforymau mewnol i ystyried materion yn ymwneud ag AD a staff, ac mae'n cysylltu'n rheolaidd ag undebau llafur.

---

[1] Mae Adolygiadau o Ddatblygiad Personol yn asesu staff i sicrhau bod eu hanghenion datblygu personol yn cael eu nodi a bod rhaglen yn cael ei rhoi ar waith i'w diwallu.

[2] Statws Sengl yw'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses lle mae cynghorau wedi mynd ati i ddileu'r hen arfer o wahaniaethu ar sail cyflog ym maes llywodraeth leol trwy adolygu ei strwythurau talu a graddio i sicrhau eu bod yn bodloni'r prawf cyflog cyfartal.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen datblygu'r gwaith o gynllunio gweithlu strategol a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer rhai meysydd, er enghraifft, Gwasanaethau Cymdeithasol, ond nid ar gyfer eraill, ac mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'r angen i leihau'r anghysondeb yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor weithredu dull integredig o gynllunio'r gweithlu sy'n gysylltiedig â thargedau gwasanaeth, cyllid a'r gweithlu (gweler C2, C4 ac Atodiad 2).

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Strategaeth ar gyfer Pobl ac mae'n casglu amrywiaeth eang o ddata a metrigau allweddol, gan gynnwys; costau AD, perfformiad y gwasanaeth, boddhad cleientiaid a darpariaeth y Strategaeth AD. Fodd bynnag, gallai'r wybodaeth gael ei chyflwyno'n gliriach i Aelodau ac uwch reolwyr. Mae'n anodd i'r rhanddeiliaid hyn werthuso perfformiad AD a chynnydd yn erbyn amcanion a blaenoriaethau'r Strategaeth ar gyfer Pobl (gweler C4 ac Atodiad 2).

Er gwaethaf y ffaith bod anghenion hyfforddi unigol yn cael eu nodi trwy'r broses PDR, nid yw'r allbynnau'n cael eu defnyddio'n gyson i 'lywio' hyfforddiant ac i ddatblygu sgiliau a'r gallu i ateb y galw am sgiliau nawr ac yn y dyfodol (gweler C4 ac Atodiad 2).

Hefyd, mae angen dogfen sy'n nodi strategaeth a chynllun AD clir, gan nodi rôl rheolwyr llinell er mwyn esbonio sut y bydd AD yn helpu'r sefydliad i wireddu ei Strategaeth ar gyfer Pobl yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod llinell strategol amlwg yn cysylltu Strategaeth Pobl y Cyngor â'r Amcanion Gwella ac yn dangos ble a sut y darperir gwerth trwy ei ddull o gynllunio'r gweithlu (C4 ac Atodiad 2).

### Hyd yma, mae'r Cyngor wedi ymateb yn effeithiol i'r heriau ariannol y mae wedi'u hwynebu ac wedi sicrhau arbedion cyn bod eu hangen

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi ymateb yn effeithiol i'r heriau ariannol y mae wedi'u hwynebu. Yn arbennig, mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i nodi ei ofynion o ran arbedion, gan ei alluogi i gynllunio ymlaen llaw mewn ffordd gymesur.

Cyflwynodd y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig am y tro cyntaf yn 2009. Aeth y cynllun hwn ati i nodi bod angen i'r Cyngor arbed £25 miliwn erbyn 2014-15. Mae'r Cyngor wedi adrodd bod yr holl arbedion namyn £0.4 miliwn eisoes wedi'u nodi. Y gofyniad a nodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2012-13) oedd £3.4 miliwn, ond roedd y Cyngor wedi sicrhau £6.8 miliwn o arbedion ymlaen llaw, gan ei alluogi i gynllunio ar gyfer gwarged. Mae'r Cyngor yn bwriadu ail-fuddsoddi gwarged arfaethedig 2012-13 ar gyfer gwella seilwaith ysgolion mewn ymateb i ddatblygiadau Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Mae aelodau wedi ymrwymo'n dda i'r broses cynllunio ariannol tymor canolig, gan gynnwys ymgysylltu ag aelodaeth ehangach mewn gweithdai a reolir gan y Cyngor, yn ogystal â thrwy waith cyswllt rheolaidd a mewnbwn trwy'r Cabinet. Mae rhanddeiliaid eraill wedi cymryd rhan, yn bennaf trwy ymrwymo i bennu Amcanion Gwella ac ym maes darparu gwasanaethau, yn hytrach nag yn uniongyrchol trwy bennu cyllidebau.

Ymgynghorwyd â'r undebau llafur ar y cynigion cyllideb ar gyfer 2012-13 a strategaeth gweithlu'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor broses cynllunio gwelliannau a busnes sefydlog ar gyfer sicrhau bod blaenoriaethau gwasanaeth yn cael eu datblygu trwy Gynlluniau Gwella Gwasanaethau (SIPs) sy'n bwydo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Rydym wedi adrodd yn flaenorol bod gwaith ar SIPs wedi dangos bod eu cadernid yn amrywio ac rydym yn argymell isod sut y gallai'r Cyngor wella hyn (gweler C2).

Fel rhan o agenda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon, mae'n cyfrannu at amryw o raglenni cydweithredol. Mae'r rhain yn cynnwys; integreiddio gwasanaethau cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, cymryd rhan yn Rhaglen Eiddilwch Gwent, cydweithio yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ledled y pum cyngor yng Ngwent, Prosiect Gwyrdd gyda phedwar cyngor cyfagos a chaffael staff Asiantaeth gyda Chyngor Caerdydd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi dangos arbedion effeithlonrwydd ariannol na gwell canlyniadau hyd yma gan fod llawer o'r rhaglenni cydweithredol hyn yng nghyfnodau cynnar eu datblygu neu eu gweithredu.

Ar hyn o bryd, rydym yn derbyn adolygiad manylach o agweddau penodol ar brosesau cynllunio ariannol y Cyngor, yn ogystal â'i ddull cydweithio, a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y rhain maes o law.

## Mae partneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i weledigaeth Rhaglen Eiddilwch Gwent ac wedi creu fframwaith cryf i reoli'r rhaglen a bod yn sail iddi. Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent yn ei dyddiau cynnar ac mae angen gwneud llawer o waith i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, ac i newid ymddygiad pobl a dangos ei heffaith

Ar 4 Ebrill 2011, dechreuodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Mynwy, Casnewydd a Thorfaen ddefnyddio model integredig uchelgeisiol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, sef Rhaglen Eiddilwch Gwent (GFP). Mae gan GFP statws cyfreithiol o dan gytundeb Partneriaeth Adran 33[3] rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum awdurdod lleol ac mae'n cael ei chefnogi gan £6.9 miliwn o gyllid Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru. Mae amcanion GFP yn hynod berthnasol i'r ffordd mae'r cyrff sector cyhoeddus perthnasol yn defnyddio eu hadnoddau, ac maent yn rhan annatod o'r gwaith o ddarparu blaenoriaethau ar gyfer gwella ym mhob asiantaeth berthnasol.

---

[3] Mae cytundeb partneriaeth o dan Adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi'i sefydlu fel y gellir integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfuno cyllidebau i ddarparu Rhaglen Eiddilwch Gwent.

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad cychwynnol o'r trefniadau i roi GFP ar waith, gan ganolbwyntio ar ddarparu sicrwydd cynnar mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a chyfeiriad tuag at gyflawni amcanion a chanlyniadau arfaethedig, yn hytrach na gwerthuso llwyddiant. Daethom i'r casgliad bod partneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i weledigaeth GFP ac wedi creu fframwaith cryf i reoli'r rhaglen a bod yn sail iddi. Mae GFP yn ei dyddiau cynnar ac mae angen gwneud llawer o waith i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, ac i newid ymddygiad pobl a dangos ei heffaith.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Awgrymir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a amlinellwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

**Cynigion ar gyfer gwella – ymgynghori**

C1 Dylai'r Cyngor sicrhau bod cwmpas ei weithgareddau ymgynghori, mewn perthynas â datblygu ei Amcanion Gwella blynyddol, yn ennyn diddordeb yr ystod eang o randdeiliaid a ddiffinnir yn y Mesur a'r canllawiau.

**Cynigion ar gyfer gwella – cynlluniau gwella gwasanaethau**

C2 Er mwyn gwella ei drefniadau ar gyfer cyflawni ei Amcanion Gwella, dylai'r Cyngor gryfhau ei brosesau cynllunio gwasanaethau i sicrhau:

- bod pob Cynllun Gwella Gwasanaeth (SIP) perthnasol yn canolbwyntio ar gyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor, yn cysylltu'n glir â'r amcanion ac yn cynnwys camau gweithredu sy'n cyfrannu at eu cyflawni;
- bod asesiadau ariannol blynyddol ffurfiol ei Amcanion Gwella'n cael eu cynnwys ym mhob SIP perthnasol er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cyfateb yn glir i flaenoriaethau;
- bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal mewn ffordd gyson a chadarn ar gyfer pob SIP wrth iddynt gael eu datblygu; a
- bod gwaith cynllunio'r gweithlu'n cael ei gynnwys mewn cynlluniau gwella gwasanaethau ac yn cael ei adlewyrchu ym mhob SIP (gweler C4 ac Atodiad 2).

**Cynigion ar gyfer gwella – rhoi cynigion ar gyfer gwella ar waith**

C3 Dylai'r Cyngor fonitro ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â chynigion ac argymhellion ar gyfer gwella a gyflwynwyd gan reoleiddwyr ac arolygiaethau, gan gynnwys y rhai yn ein Llythyrau Asesiad Corfforaethol, ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a'n hadolygiadau seiliedig ar wasanaeth, i'r pwyllgorau priodol fel y gall swyddogion ac aelodau fonitro a chraffu ar gynnydd a sbarduno cyflymder y cynnydd hwnnw.

**Cynigion ar gyfer gwella (Adolygiad Adnoddau Dynol (AD))**

C4 Dylai'r Cyngor fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n ymwneud â'n hadroddiad adborth ar AD (Gorffennaf 2012) (gweler Atodiad 2).

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm Asesu Gwelliant yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac maent yn darparu mwy o fanylion am y gwaith a gyflawnir yn ystod asesiad eleni, ac yn enwedig sut y byddwn yn ychwanegu gwerth trwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodir ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad ag awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn arbennig, byddaf yn gofyn i'm Tîm Asesu Gwelliant ystyried pa mor ddibynadwy yw'r prosesau hunanasesu yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol).
Byddaf yn gwneud sylwadau ar y dull hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith ac rwy'n gobeithio gweld trefniadau mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser.
Rwyf wedi ymrwymo i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus a'ch cefnogi i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a'r newidiadau yn sgil hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Non Jenkins, Rheolwr Rhanbarthol
Jackie Joyce, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, Gorffennaf 2010** | |
| 1. Gorffen a chyhoeddi Amcanion Gwella, sy'n fersiwn drafft ar hyn o bryd, a diweddaru'r Cynllun Gwella Corfforaethol i nodi'n glir weledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. | Mae'r Cyngor wedi cwblhau'r cam gweithredu hwn<br>**Statws: Wedi'i gwblhau.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |
| 2. Gwella systemau i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol drwy:<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Gwella Gwasanaethau (SIPs) yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau gwella corfforaethol y Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at fynd i'r afael â'r cynnig hwn. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod y maes hwn yn peri pryder o hyd gan nad yw nifer o SIPs yn cysylltu'n glir ag Amcanion Gwella'r Cyngor.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Sicrhau bod targedau CAMPUS yn cael eu pennu sy'n canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol. | Er bod y rhan fwyaf o'r targedau perfformiad a bennwyd yng Nghynllun eleni (Amcanion Gwella 2012-13) yn gynyddol, mae yna bryderon o hyd ynglŷn â'r gwaith o adrodd ar dargedau a chynnwys targedau blynyddoedd blaenorol yn y crynodeb o berfformiad gan na chawsant eu cynnwys yn nogfen mis Mehefin y Cyngor (*Amcanion Gwella 2012-2013 (yn cynnwys Crynodeb o Gynnydd ar gyfer 2011-2012*).<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| 3. Gwella'r broses o reoli perfformiad drwy:<br>• Lunio ystod eang o ddangosyddion i fesur gwelliant sy'n canolbwyntio'n glir ar reoli gwasanaethau gweithredol. | Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella wedi'i ddisodli gan gynnig a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012: 'Gwella trefniadau hunanasesu ac adrodd ar berfformiad trwy gynnwys hunanwerthusiad clir yn ei Adroddiad ar Berfformiad sy'n dangos a yw wedi cyflawni pob Amcan Gwella neu'n gwneud cynnydd boddhaol at wneud hynny.'<br>Gweler y diweddariad yn erbyn cynnig ar gyfer gwella rhif 17 yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 isod.<br>**Statws: Wedi'i ddisodli gan gynnig ar gyfer gwella rhif 17 yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, Gorffennaf 2010** | |
| • Gwerthuso perfformiad i nodi'r meysydd a'r cyfleoedd ar gyfer gwella. | Mae'r Cyngor yn cynnal nifer o weithgareddau, gan gynnwys adolygiadau misol gan swyddogion o gynnydd yn erbyn mesurau lefel uchel, y Cabinet yn monitro'r Cynllun Gwella a'r Pwyllgor Craffu'n adolygu data perfformiad.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad yn yr hydref.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ddwyn eu staff i gyfrif, a mynd i'r afael yn effeithiol â meysydd perfformiad gwael. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor wedi rhoi proses Adolygu Datblygiad Personol (PDR) ar waith, cyflwyno rhaglen hyfforddi a mentora, lansio polisi absenoldeb newydd a darparu hyfforddiant rheoli salwch i reolwyr. Mae'r Strategaeth newydd ar gyfer Pobl a gytunwyd gan y Cyngor yn cael ei defnyddio i ddatblygu'r Strategaeth AD a'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol, a chaiff proses Rheoli Tanberfformiad ei chyflwyno i'r Cabinet.<br>Yn ôl ein hadolygiad diweddar o AD: 'Mae modiwlau hyfforddi ar gyfer prosesau rheoli pobl allweddol ar gael. Mae lefel presenoldeb a boddhad yn cael ei fonitro. Mae sylwadau o adolygiadau blaenorol (Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru – Awst 2010) yn nodi pryderon yn ymwneud â rheoli perfformiad.<br>Fodd bynnag, mae gwaith wedi'i wneud ers hynny i wella'r broses a hyfforddiant rheolwyr llinell, a'r wybodaeth reoli sy'n cefnogi'r ddau.'<br>Gweler cynnig ar gyfer gwella rhif 4 yn Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Gorffennaf 2010 isod.<br>**Statws: Wedi'i gwblhau.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |
| 4. Sicrhau bod cynlluniau a gwasanaethau yn gyson er mwyn cefnogi'r rhaglen wella drwy:<br>• Gytuno ar ddewisiadau a datblygu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb. | Gwnaeth y Cyngor gynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella a chynhyrchodd gynllun ariannol tymor canolig ym mis Hydref 2010. Fel rhan o'i brosesau i bennu'r gyllideb, mae'n ystyried dewisiadau ac yn datblygu ei gynllun ariannol tymor canolig ymhellach.<br>Gweler y diweddariad yn erbyn cynnig ar gyfer gwella rhif 10 yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2011 isod.<br>Rydym wrthi'n cyflawni rhywfaint o waith ar Ateb yr Her Ariannol a Diwydrwydd Dyladwy. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith hwn maes o law.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, Gorffennaf 2010** | |
| • Cynnal ymarferiad cynllunio'r gweithlu traws-sirol i bennu anghenion staffio yn y dyfodol, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau eraill y sector cyhoeddus. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella, yn enwedig mewn perthynas â gwaith cynllunio'r gweithlu wrth gydweithredu ag awdurdodau cyfagos ym maes gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae angen cyflawni rhagor o waith i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu'n rhan o gynlluniau gwella gwasanaethau ac yn cael ei adlewyrchu ym mhob SIP.<br>Yn 2012-13, byddwn yn cynnal adolygiad o drefniadau cyd-lywodraethu ac yn ymgorffori'r gwaith o fonitro'r cynnig hwn ar gyfer gwella. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith hwn maes o law.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd partneriaethau i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol. | Er bod y Cyngor yn ymgysylltu â nifer o bartneriaethau a rhaglenni cydweithredol, nid yw eu heffeithiolrwydd, gan gynnwys eu gallu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ariannol a sicrhau gwelliant a blaenoriaethau corfforaethol, wedi dod i'r amlwg hyd yma.<br>Mae dau gerdyn sgorio perfformiad (Amgylchedd Byw y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles) wedi'u datblygu ar Ffynnon i helpu i fonitro ac adrodd ar gynnydd. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (LSB) wedi gofyn i gydgysylltwyr nodi dangosyddion perfformiad i'w rhoi mewn cerdyn sgorio er mwyn olrhain cynnydd dros amser, sydd i'w gwblhau cyn hir.<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cadernid cynlluniau gweithredu a monitro'n amrywio ar draws ei ystod o bartneriaethau.<br>Yn 2012-13, byddwn yn cynnal adolygiad o drefniadau cyd-lywodraethu ac yn ymgorffori'r gwaith o fonitro'r cynnig hwn ar gyfer gwella. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith hwn maes o law.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Cryfhau ei drefniadau rheoli risg yn sgil yr holl heriau sy'n dod i'r amlwg. | Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli risg sy'n cwmpasu risgiau corfforaethol a gwasanaeth.<br>Mae Uned Rheoli Perfformiad y Cyngor yn asesu SIPs, a daeth i'r casgliad y gellid disgrifio risgiau'n well mewn rhai achosion i nodi achos ac effaith. Cadarnhaodd ein hadolygiad y canfyddiadau hyn.<br>Byddwn yn parhau i fonitro trefniadau rheoli risg y Cyngor.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, Gorffennaf 2010** | |
| • Datblygu a mabwysiadu strategaeth rheoli asedau i ddiwallu anghenion y Cyngor yn y dyfodol. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella. Mae wedi cyhoeddi ei Strategaeth Rheoli Asedau (Tir ac Eiddo) sy'n cynnwys cynllun gweithredu.<br>Yn 2012-13, byddwn yn cynnal adolygiad o'r strategaeth rheoli asedau. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith hwn maes o law.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Gwella cysondeb o ran sut mae'r cynlluniau'n adlewyrchu'r modd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion ac yn ymateb i'w hanghenion nhw. | Mae'r Cyngor yn defnyddio nifer o fecanweithiau i ymgynghori â chymunedau a dinasyddion. Mae ein hadolygiad o gynllun gwella 2012-13 yn awgrymu y gellir gwneud gwelliannau pellach i gwmpas ymgynghoriadau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i anghenion ei gymuned.<br>**Statws: Wedi'i ddisodli gan gynnig newydd: gweler C1 fel yr amlinellir yn y llythyr hwn.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |
| • Cwblhau ei adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol a phenderfynu sut i'w hymgorffori ledled y sefydliad. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella. Mae gan y Cyngor ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau sydd ar gael i staff trwy'r fewnrwyd, ac mae wedi cynnal hyfforddiant i reolwyr. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y grŵp strategaeth AD wedi adolygu effeithiolrwydd y polisïau a'r gwaith o'u rhoi ar waith ledled y sefydliad.<br>Gweler cynnig ar gyfer gwella rhif 3 yn Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Gorffennaf 2010 uchod.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Creu systemau rheoli Adnoddau Dynol cadarn i gefnogi'r newidiadau diwylliannol sy'n digwydd o fewn y Cyngor. | Er y gellid parhau i wneud gwelliannau mewn perthynas â'r cynnig hwn ar gyfer gwella, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd. Dylai'r atebion AD mewn perthynas â Trent ac iTrent fel y llwyfan AD craidd ddarparu'r data a'r dechnoleg i gefnogi newid diwylliannol. Yn ogystal â hyn, dylai'r broses PDR gefnogi ffocws ar ddatblygu cymhwysedd a gwella gwasanaethau.<br>**Statws: Wedi'i gwblhau.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, Gorffennaf 2010** | |
| 5. Hyfforddi a helpu'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i ofalu bod ei swyddogaethau'n gwella'n barhaus. | Er bod y Cyngor wedi darparu hyfforddiant i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2011, o ystyried y newidiadau diweddar a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol 2011 a Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio presennol yn bodloni gofynion y Mesur mewn perthynas â chraffu a rôl pwyllgorau archwilio.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Ionawr 2011** | |
| 6. Cyhoeddi ei amcanion gwella yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. | Cyhoeddodd y Cyngor ei Amcanion Gwella yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru gan fodloni gofynion statudol ar gyfer 2011-12.<br>**Statws: Wedi'i gwblhau.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |
| 7. Ymgynghori â'i amrywiaeth lawn o randdeiliaid ynglŷn â'r Amcanion Gwella a rhoi cyfleoedd priodol i ddinasyddion ddylanwadu a llywio blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol. | Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar ei Amcanion Gwella yng nghynllun gwella 2010-11 trwy'r panel safbwyntiau.<br>Ni chynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar Amcanion Gwella 2012-13 oherwydd etholiadau lleol ym mis Mai 2012. Mae canlyniadau o'r ymarferion ymgynghori wedi'u defnyddio, ond mae angen gwella rhai meysydd ymgynghori o hyd.<br>**Statws: Wedi'i ddisodli gan gynnig newydd fel yr amlinellir yn C1 y llythyr hwn.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |
| 8. Pennu mesurau priodol i farnu a gyflawnwyd yr amcanion gwella sy'n canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn perfformio nawr, beth yw ei dargedau, sut mae'n cymharu ag eraill, y gost am gyflawni'r amcanion a sut y bydd yn dangos a yw pobl Caerffili ar eu hennill yn y diwedd. | Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd gan ei fod wedi newid nifer o fesurau ers 2011-12. Fodd bynnag, mae yna lawer o waith i'w wneud o hyd i wella eglurder a thryloywder adroddiadau, ynghyd â datblygu dulliau mesur canlyniadau fel y gellir eu defnyddio i ddangos a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni ac a yw pobl ar eu hennill yn y diwedd.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad yn yr hydref.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Ionawr 2011** | |
| 9. Pennu safonau gofynnol ar gyfer darparu gwasanaeth ym mhob maes gwasanaeth. | Er bod safonau eisoes wedi'u pennu mewn rhai meysydd gwasanaeth, nid yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ar y cynnig hwn ar draws pob gwasanaeth.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad yn yr hydref.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| 10. Gosod blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu, yng nghyd-destun llai o adnoddau. | Gwnaeth y Cyngor rywfaint o gynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella. Adolygwyd Amcanion Gwella 2011-12 a nododd adroddiad i'r Cabinet y canlynol: 'Mae adolygiad o Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn erbyn yr 8 Amcan Gwella yn dangos nad oes unrhyw doriadau a fydd yn cael effaith andwyol ar y gwaith o'u cyflawni ac, mewn 3 o'r 8 amcan, mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu a fydd yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.'<br>Gweler y diweddariad yn erbyn cynnig ar gyfer gwella rhif 4 yn Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Gorffennaf 2010 uchod.<br>Rydym wrthi'n cyflawni rhywfaint o waith pellach ar Ateb yr Her Ariannol a Diwydrwydd Dyladwy. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith hwn maes o law.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| 11. Sicrhau bod canlyniadau gwaith cynllunio ariannol yn y tymor canolig yn nodi ac yn pennu'r adnoddau sydd eu hangen a'u bod ar gael i gyflawni'r amcanion gwella. | Gweler y diweddariad yn erbyn cynnig ar gyfer gwella rhif 4 yn Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Gorffennaf 2010 uchod a chynnig ar gyfer gwella rhif 10 yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2011 uchod.<br>Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn y cynnig hwn ar gyfer gwella. Mae wedi adolygu effaith ariannol yr Amcanion Gwella ar gyllidebau. Nododd adroddiad i'r Cabinet ar Amcanion Gwella 2011-12 y canlynol: 'Mae adolygiad o Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn erbyn yr 8 Amcan Gwella yn dangos nad oes unrhyw doriadau a fydd yn cael effaith andwyol ar y gwaith o'u cyflawni ac, mewn 3 o'r 8 amcan, mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu a fydd yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.'<br>**Statws: Wedi'i ddisodli gan gynnig newydd fel yr amlinellir yn C2 y llythyr hwn.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol, Awst 2011** | |
| 12. Mae amcanion gwella a chynllun gwella blynyddol *Amcanion Gwella 2011/12* y Cyngor yn bodloni gofynion allweddol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Fodd bynnag, er mwyn dilyn y canllawiau statudol yn well, rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor:<br>• Gynnwys datganiad cyffredinol yn y cynllun blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol i nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei ddyletswydd statudol gyffredinol i sicrhau bod trefniadau ar waith i gyflawni gwelliant ledled ei swyddogaethau. | Mae'r Cyngor wedi cynnwys cyfeiriad cryno at ei ddyletswydd i wella ei gynllun gwella (*Amcanion Gwella 2012-2013 (yn cynnwys Crynodeb o Gynnydd ar gyfer 2011-2012*).<br>**Statws: Wedi'i gwblhau.**<br>**Dylid cau'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** |
| • Cynnwys gwybodaeth am weithgareddau gwella mewn meysydd nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan Amcanion Gwella, gan gynnwys arbedion a dadfuddsoddiadau arfaethedig, os ydynt yn effeithio ar wasanaethau i ddinasyddion. | Gwnaeth adolygiad ôl-weithredol y Cyngor o'i berfformiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011 sylwadau ar bob un o 13 blaenoriaeth y Cyngor, gan gynnwys yr wyth Amcan Gwella a'r Cytundebau Canlyniadau.<br>Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn pwyso a mesur y berthynas rhwng ei flaenoriaethau a'i Amcanion Gwella ac mae'r cysylltiad rhwng blaenoriaethau Amcanion Gwella presennol, blaenoriaethau corfforaethol, SIPs a strategaeth gymunedol yn cael ei adolygu. Y canlyniad fydd y gyfres newydd o Amcanion Gwella ar gyfer y pedair blynedd nesaf.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad yn yr hydref.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol, Awst 2011** | |
| 13. Dylai'r Cyngor:<br>• Roi diffiniad clir o gynllun sy'n rhoi manylion yr ymarfer ymgysylltu cyfan, gan gynnwys cyn ac ar ôl gweithredu. Dylid cynnwys costau ymgysylltu ac adnoddau. | Nid yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella. Mae'r ddogfen ymgynghori newydd wedi'i gohirio oherwydd materion adnoddau. Mae swyddogion yn bwriadu datblygu'r strategaeth newydd fel y gall y Cabinet ei hystyried ym mis Hydref 2012.<br>Mae ymgysylltu wedi bod yn bwnc amlwg yn Amcanion Gwella'r Cyngor yn 2011-12 – 'byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â dinasyddion ac yn rhoi adborth iddynt' – ac yn 2012-13 - 'sicrhau bod dinasyddion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn deall pam, pryd a sut y dylid ymgysylltu â ni a beth fyddai effaith eu hymgysylltiad o ran ein helpu i wella gwasanaethau'.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Rheoli disgwyliadau'r cyhoedd ynglŷn â chanlyniadau'r ymgynghoriad a darparu adborth priodol ar resymau dros benderfyniadau a sut mae prosesau ymgysylltu wedi cyfrannu at y canlyniadau. | Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu'r wefan a'r systemau ategol ac yn trafod y mater gyda phartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo atgyfnerthu'r egwyddorion a amlinellir yng nghyhoeddiad Cyfranogaeth Cymru, *'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru <http://www.participationcymru.org.uk/11963.file.dld>*, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Cynnal gwerthusiad o weithgareddau ymgysylltu i ddangos tryloywder ac atebolrwydd canlyniadau a gyflawnir. | Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw gynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'i waith i fynd i'r afael ag ymgysylltiad yn gyffredinol.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol, Awst 2011** | | |
| 14. | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith wrth greu gwasanaethau integredig a chydweithrediadau, gan gynnal gwerthusiadau rheolaidd o'u heffaith. | Gan gyfeirio'n benodol at Raglen Gydweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng y Cyngor a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella.<br>Mae ei ddull yn cwmpasu Llywodraethu Rhaglenni a Llywodraethu Strategol. Mae Llywodraethu Rhaglenni'n archwilio sut mae'r rhaglen gydweithredol yn cael ei rheoli a'i chyfathrebu i randdeiliaid perthnasol, ac mae Llywodraethu Strategol yn ymwneud â sut y bydd y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol newydd yn rheoli ei chyfrifoldebau statudol, ei hatebolrwydd a'i phroses benderfynu fel rhan o'r rhaglen gydweithredol. Ewch i'r wefan integreiddio yn:<br>http://socialservicesblaenau-gwent.caerphilly.gov.uk/<br>Mae Panel Craffu ar y Cyd sy'n cynnwys pum aelod o Flaenau Gwent a phump o Gaerffili wedi'i sefydlu gydag aelodau cyfetholedig sy'n cynnwys defnyddiwr gwasanaethau a chynrychiolydd gofalwyr.<br>Mae gwaith ar fodelau llywodraethu'n cael ei gyflawni gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>Yn 2012-13, byddwn yn cynnal adolygiad o lywodraethu cydweithredol ac yn ymgorffori'r gwaith o fonitro'r cynnig hwn ar gyfer gwella. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith hwn maes o law.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| 15. | Gwella'r ddarpariaeth Gymraeg ar wefan y Cyngor. | Ni allwn asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar y cynnig hwn ar gyfer gwella gan nad yw'r Cyngor wedi darparu diweddariad hyd yma. Mae diweddariad y Cyngor a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2012 yr un fath i'r un a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2012 ac mae'r golofn Diweddariad ar Gynnydd yn wag.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad yn yr hydref.<br>**Statws: Dim gwybodaeth am gynnydd ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Chwefror 2012** | |
| 16. Cwblhau mesurau llwyddiant seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer pob amcan a chyflwyno adroddiadau rheolaidd a chlir. | Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gweithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella. Rydym wedi newid geiriau rhai o'r Amcanion Gwella a nodir yng nghynllun gwella 2012-13 y Cyngor. Mae camau gweithredu wedi'u diwygio ac mae rhai'n canolbwyntio mwy ar y dinesydd ac effaith, er enghraifft, 'byddwn yn rhoi adborth sy'n dangos tystiolaeth glir o newid neu welliant o ganlyniad i'r broses ymgysylltu', 'byddwn yn dadansoddi boddhad cwsmeriaid drwy gynnal gwaith ymchwil a dadansoddi i gadarnhau'r rhesymau neu'r achosion dros foddhad/anfoddhad ar sail ardaloedd daearyddol' a 'byddwn yn cyflwyno ac yn cyhoeddi safonau gwasanaethau cyswllt i'r cwsmer fel y bydd cwsmeriaid yn ymwybodol o'r gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl a sut rydym yn perfformio yn eu herbyn'. Mae nifer o fesurau ychwanegol wedi'u cynnwys hefyd, er enghraifft, Amcanion Gwella 1, 5, 6 ac 8, ond mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar y broses yn hytrach nag asesu a barnu gwelliannau i ddinasyddion (e.e. adolygu'r siarter gwasanaethau cwsmeriaid a dadansoddi'r rhesymau dros foddhad/anfoddhad ar sail ardaloedd daearyddol).<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad yn yr hydref.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Chwefror 2012** | |
| 17. Gwella trefniadau hunanasesu ac adrodd ar berfformiad trwy:<br>• Adrodd yn glir y graddau y cwblhawyd y camau gweithredu ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella ac a gyrhaeddwyd y targedau ar gyfer gwella. | Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar y cynnig hwn ar gyfer gwella.<br>Er bod system rheoli perfformiad y Cyngor, Ffynnon, yn cynnwys camau gweithredu manwl a chynnydd yn erbyn pob Amcan Gwella a thargedau, nid yw'r wybodaeth hon am berfformiad yn erbyn targedau yn cael ei hadrodd yn gyhoeddus.<br>Mae gan y Cynllun grynodeb darluniadol cyffredinol ar ddechrau pob Amcan Gwella, ynghyd â thestun cryno, sy'n cynnwys gwybodaeth am y camau gweithredu a gwblhawyd.<br>Gan mai dim ond un rhan o asesiad y Cyngor o'i berfformiad sy'n cael sylw yn nogfen mis Mehefin (*Amcanion Gwella 2012-2013, yn cynnwys Crynodeb o gynnydd ar gyfer 2011-12*), byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Pennu mesurau llwyddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pob Amcan Gwella ac adrodd ar y rhain. | Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella'n ymwneud â chryfhau a sicrhau bod gan y Cyngor fesurau seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer pob Amcan Gwella. Ni wnaed unrhyw gynnydd eto ar gyfer y cynnig hwn fel y nodwyd yn nogfen mis Mehefin y Cyngor (*Amcanion Gwella 2012-2013,yn cynnwys Crynodeb o gynnydd ar gyfer 2011-12*).<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Cyflwyno darlun cytbwys o ba mor dda mae'r Cyngor wedi cyflawni mewn perthynas â phob Amcan Gwella, gan gynnwys adrodd ar berfformiad yn erbyn pob mesur. | Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella'n cyfeirio at werthuso ac adrodd ar berfformiad yn erbyn pob Amcan Gwella.<br>Ni wnaed unrhyw gynnydd eto ar gyfer y cynnig hwn fel y nodwyd yn nogfen mis Mehefin y Cyngor (*Amcanion Gwella 2012-2013,yn cynnwys Crynodeb o gynnydd ar gyfer 2011-12*).<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Chwefror 2012** | |
| • Cynnwys hunanwerthusiad clir yn ei Adrodd ar Berfformiad sy'n dangos a yw wedi cyflawni pob Amcan Gwella neu'n gwneud cynnydd boddhaol at wneud hynny. | Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella'n ymwneud â'r Cyngor yn nodi'n glir yn ei hunanasesiad a yw wedi gwneud yr hyn y dywedodd y byddai'n ei wneud ac a wnaed unrhyw welliannau ai peidio. Ar hyn o bryd, mae cynlluniau gwella a dogfennau asesu perfformiad yn darparu gwybodaeth amrywiol ond nid ydynt yn datgan yn glir (yn wahanol i Gytundebau Canlyniadau) a yw'r Cyngor yn credu iddo fod yn llwyddiannus ai peidio.<br>Gwnaed rhywfaint o gynnydd ar gyfer y cynnig hwn fel y nodir yn nogfen mis Mehefin y Cyngor (*Amcanion Gwella 2012-2013, yn cynnwys Crynodeb o gynnydd ar gyfer 2011-12*) ac mae yna grynodeb darluniadol ar ddechrau pob Amcan Gwella, ynghyd â thestun cryno, sy'n cynnwys gwybodaeth am y camau gweithredu a gwblhawyd.<br>Mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi sylw manylach i'r cynnig hwn yn asesiad perfformiad mis Hydref.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Yn parhau ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Darparu mwy o ddata perfformiad a meincnodi cymharol i ddinasyddion er mwyn iddynt allu barnu perfformiad yn well. | Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella'n ymwneud â'r gofyniad ym Mesur Llywodraeth Leol 2009 i gynghorau ddefnyddio'r wybodaeth am wella maent yn ei chasglu i gymharu eu perfformiad yn erbyn eu perfformiad mewn blynyddoedd ariannol blaenorol a chydag awdurdodau eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg.<br>Ni wnaed unrhyw gynnydd eto ar gyfer y cynnig hwn ond mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi sylw iddo yn asesiad perfformiad mis Hydref.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Chwefror 2012** | |
| • Adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni targedau i ddinasyddion. | Er bod y Cyngor yn adrodd ei fod wedi gwneud cynnydd yn erbyn y targedau'n fewnol nid yw'n gwneud hynny'n gyhoeddus er ei fod yn adrodd ar y perfformiad gwirioneddol a gyflawnwyd.<br>Ni wnaed unrhyw gynnydd eto ar gyfer y cynnig hwn fel y nodwyd yn nogfen mis Mehefin y Cyngor (*Amcanion Gwella 2012-2013, yn cynnwys Crynodeb o gynnydd ar gyfer 2011-12*).<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Darparu gwybodaeth am gostau unedau, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i wella Adroddiad Perfformiad y Cyngor ac i helpu i nodi cyfleoedd pellach i wneud arbedion. | Ni wnaed unrhyw gynnydd eto ar gyfer y cynnig hwn fel y nodwyd yn nogfen mis Mehefin y Cyngor (*Amcanion Gwella 2012-2013, yn cynnwys Crynodeb o gynnydd ar gyfer 2011-12*).<br>Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i'w hysbysu am gynnydd mewn perthynas â hyn ac yn monitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Gwerthuso ac adrodd ar yr effaith mae cyllidebau llai yn ei chael ar wasanaethau rheng flaen er mwyn nodi'r peryglon sy'n codi o benderfyniadau i ddadfuddsoddi. | Ni wnaed unrhyw gynnydd eto ar gyfer y cynnig hwn fel y nodwyd yn nogfen mis Mehefin y Cyngor (*Amcanion Gwella 2012-2013, yn cynnwys Crynodeb o gynnydd ar gyfer 2011-12*).<br>Rydym yn bwriadu cynnal asesiad o effaith torri cyllidebau ac adnoddau ar wasanaeth a byddwn yn cyflwyno'r canfyddiadau maes o law.<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |
| • Adrodd ar ei berfformiad i'r cyhoedd mewn dogfen neu ddogfennau sy'n helpu dinasyddion i ddeall perfformiad y Cyngor yn haws. | Ni wnaed unrhyw gynnydd eto ar gyfer y cynnig hwn fel y nodwyd yn nogfen mis Mehefin y Cyngor (*Amcanion Gwella 2012-2013, yn cynnwys Crynodeb o gynnydd ar gyfer 2011-12*).<br>Byddwn yn parhau i fonitro dull y Cyngor o weithredu'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel rhan o'n hasesiad o berfformiad yr hydref hwn.<br>**Statws: Heb ddechrau eto ac mae'r cynnig yn dal i fod yn agored.** |

# Atodiad 2

Cynigion ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig ag adroddiadau penodol ar wasanaeth.

| **Cynigion ar gyfer gwella – adolygiad o Adnoddau Dynol (AD)** | |
|---|---|
| C1 | Er mwyn cefnogi trefniadau hunanasesu a gwerthuso perfformiad, dylai'r Cyngor ddatblygu cerdyn sgorio AD cytbwys i olrhain perfformiad AD yn erbyn metrigau allweddol, er enghraifft, costau AD, perfformiad gwasanaeth, boddhad cleientiaid a chyflawni'r strategaeth AD. |
| C2 | Er mwyn cefnogi trefniadau cynllunio'r gweithlu, dylai'r Cyngor ddefnyddio canlyniadau'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad yn gyson i ddatblygu cynlluniau hyfforddi a datblygu cadarn er mwyn mynd i'r afael ag anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol. |
| C3 | Dylai'r Cyngor lunio dogfen glir yn nodi strategaeth a chynllun AD ac sy'n:<br>• cynnwys rôl rheolwyr llinell ac yn egluro/nodi sut y bydd AD yn cefnogi'r sefydliad yn y gwaith o gyflawni ei Strategaeth ar gyfer Pobl yn y dyfodol;<br>• darparu llwybr clir trwy'r Strategaeth ar gyfer Pobl i amcanion gwella datganedig y Cyngor a dangos ble a phryd y darparir gwerth. |
| C4 | Gweithredu dull cyfunol o gynllunio'r gweithlu sy'n cyd-fynd â thargedau gwasanaeth, ariannol a gweithlu'r Cyngor. |